

## ATEBION - Rownd Cwestiynau CYFFREDINOL

1	Beth yw enw'r wlad sydd rhwng Algeria a Lybia?	<b>Tiwnisia</b>
2	Pa iaith mae'r gair 'ketchup' yn dod?	<b>Tsieinëeg</b>
3	Gorffennwch y ddihareb yma: 'Cenedl heb iaith, cenedl heb _____'	<b>galon</b>
4	Beth yw anifail cenedlaethol yr Alban?	<b>Yr unicorn</b>
5	Beth yw enw'r fferm cafodd Hedd Wyn ei fagu?	<b>Yr Ysgwrn</b>
6	Beth yw lliwiau baner Catalwnia?	<b>Melyn &amp; coch</b>
7	Pa gwm ddisgrifiodd Eifion Wyn fel 'Cwm tecaf y cymoedd'?	<b>Cwm Pennant</b>
8	Pa wlad oedd y cyntaf i ddefnyddio platiau rhif ar geir?	<b>Ffrainc</b>
9	Pwy gaeodd lawer iawn o reilffyrdd Cymru yn y 60au?	<b>Beeching</b>
10	Ym mha wlad mae senedd o'r enw Duma?	<b>Rwsia</b>

## ATEBION - Rownd Cwestiynau HANES

1	Beth yw enw nawdd santes anifeiliaid yng Nghymru?	<b>Melangell</b>
2	Beth yw enw'r ynys lle mae llawer o seintiau wedi'u claddu?	<b>Ynys Enlli</b>
3	Beth oedd enw cartref Owain Glyndwr?	<b>Sycharth</b>
4	Pa adeilad yng Nghymru gafodd ei enwi ar ôl William Williams Pantycelyn?	<b>Llety Myfyrwyr</b>
5	Pa flwyddyn oedd refferendwm datganoli Cymru wnaeth roi Cynulliad i Gymru?	<b>1997</b>
6	Yn 1801 pa dref oedd â'r mwyaf o bobl yn byw ynddi yng Nghymru? <b>7705</b>	<b>Merthyr</b>
7	Pa flwyddyn lladdwyd Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri?	<b>1282</b>
8	Pwy yw llywydd y Cynulliad?	<b>Elin Jones</b>
9	Pryd agorwyd Pont Hafren? <b>Agorwyd yr 'ail bont' sef 'Ail-groesiad Hafren' yn 1996</b>	<b>1966</b>
10	Beth oedd enw'r meddyg o Bontypridd a amlosgodd corff ei fab?	<b>William Price</b>

## ATEBION - Rownd Cwestiynau DAEARYDDIAETH

1	Pa un yw anialwch mwyaf y byd?	Yr Antarctig
2	Pa afon sy'n llifo trwy Dundee?	Afon Tay
3	Mae'r cyhydedd yn mynd trwy faint o wledydd yn Ne America? Brasil, Columbia ac Ecwador	3
4	Ble mae Rhaeadr uchaf y byd?	Feneswela
5	Ble mae Oriel Celf Prado?	Madrid
6	Ble mae Bae'r Moch?	Ciwba
7	Prifddinas pa wlad yw Hanoi?	Fietnam
8	Pa un yw'r llyn mwyaf yn Canada? The Great Bear Lake	Llyn Bear
9	Pa un yw'r ynys fwyaf yn y byd?	Yr Ynys Las
10	Faint o filltiroedd sydd rhwng John O'Groats a Land's End? (Fel mae'r fran yn hedfan!)	603

## ATEBION - Rownd Cwestiynau FFERMIO

1	Mae afalau, gellyg ac eirin yn perthyn i deulu pa fath o flodyn?	Rhosyn
2	Pa anifail sy'n cynhyrchu caws Roquefort?	Dafad
3	Sawl pwys o laeth sydd angen i wneud pwys o gaws?	10
4	Pa gwmni llaeth o Gymru sy'n gwerthu yn Hong Kong, Fietnam a Singapore?	Daioni
5	Mathau o ba lysieuyn ydi Mr Big, Maestro a Thomas Laxton?	Pys
6	Sawl rhan sydd i stumog buwch	4
7	Pwy yw Gweinidog Amaeth Cymru?	Leslie Griffiths
8	Sawl dafad sydd yng Nghymru ar gyfer pob person? 9 miliwn o ddefaid 3 miliwn o bobl yn fras	3
9	Wrth ddilyn pa anifail roedd y ffermwr yn canu 'Hw mlaen'?	Ychen
10	Pa dractor sydd â lliw gwyrdd ac olwynion melyn?	John Deere

## ATEBION - Rownd Cwestiynau GWLEIDYDDIAETH

1	Pa flwyddyn ymunodd Prydain â'r Undeb Ewropeaidd?	1973
2	Pwy oedd y Prif Weinidog adeg argyfwng Suez	Anthony Eden
3	Pwy oedd arweinydd Rwsia adeg argyfwng Ciwba?	Khrushchev
4	Pwy oedd arweinydd y jwnta a gymerodd feddiant o Ynysoedd y Malfinas (Faulklands) yn 1982	Galtieri
5	Beth oedd y Gulag yn Rwsia?	Carchar wersyll
6	Pa arlywydd yr Aifft a lofruddiwyd mewn gorymdaith filwrol yn 1981?	Sadat
7	Bu rhyfel ynghylch pysgod - 'cod war' - yn y 1970au rhwng Prydain a pha wlad?	Gwlad yr Iâ
8	Beth yw enw arweinydd alltud Catalwnia?	Puigdemont
9	Pwy yw arlywydd Twrci ar hyn o bryd?	Erdogan
10	Pwy oedd y wraig gyntaf i ddod yn Llywydd Iwerddon? <b>Mary Robinson oedd y 7fed Llywydd a Mary McAleese yr 8fed. Gwleidydd Gwyddelig arall yw Mary Coughlan.</b>	Mary Robinson

## ATEBION - Rownd Cwestiynau CHWARAEON

1	Pa gamp enillodd Jade Jones fedalau aur yn y Chwaraeon Olympaidd?	Taekwondo
2	Pa chwaraewr Rygbi o Gymru oedd y cynta i gyrraedd 100 cap dros ei wlad?	Gareth Thomas
3	Pa un o'r 3 yma sydd wedi sgori'r nifer fwyaf o goliau dros dim pêl-droed Cymru? <b>Rush 28; Bale 29; Giggs 12</b>	Gareth Bale
4	Pryd oedd y Cwpan Ryder yn Celtic Manor?	2010
5	Enillodd y Cymro Lyn Davies Fedal Aur am y naid hir yn y Chwaraeon Olympaidd. Ond ble? <b>1964</b>	Tokyo
6	Pa Gymro sydd wedi chware'r nifer fwy o gemau prawf dros dîm criced Lloegr	Robert Croft
7	Sawl Cymro sydd wedi ennill Pencampwriaeth Snwcer y Byd? <b>Ray Reardon, Terry Griffiths, Mark Williams</b>	3
8	Clwb Caerdydd (Cardiff City) yw'r unig dîm y tu allan i Loegr i ennill Cwpan Pêl-droed yr F.A yn Wembley yn 1927. Ond yn erbyn pwy enillon nhw'r rownd derfynol? <b>Sgôr 1-0</b>	Arsenal
9	Pa chwaraewr sydd wedi bod yn gapten y nifer fwy o weithiau ar dîm Rygbi Cymru? <b>Warburton 40; Ieuan Evans 28; Ryan Jones 33</b>	Sam Warburton
10	Pwy oedd y Cymro cyntaf i wisgo'r crys melyn yn y Tour de France?	Geraint Thomas

## ATEBION - Rownd Cwestiynau CREFYDD

1	Pa grefydd sefydlwyd gan Ignatius Loyola?	<b>Jeswitiaid</b>
2	Beth yw'r ail lyfr yn yr Hen Destament?	<b>Exodus</b>
3	Pa Grynwr sefydlodd dinas Philadelphia?	<b>William Penn</b>
4	Pwy sefydlodd Eglwys Bresbyteraidd Rydd Ulster?	<b>Ian Paisley</b>
5	Pa fudiad dechreuodd Chad Varah yn 1953?	<b>Samariaid</b>
6	Pwy oedd negesydd y duwiau ym mytholeg y Groegiaid?	<b>Hermes</b>
7	Pa ran o'r byd y dechreuodd Bwdistiaeth?	<b>India</b>
8	Beth yw enw'r bwyd mae'n rhaid i Foslemiaid ei fwyta?	<b>Halal</b>
9	Yn ôl Llyfr y Datguddiad beth yw rhif y bwystfil?	<b>666</b>
10	Yn ôl y Qur'an, beth sy'n cael ei ystyried yn bechod mwyaf i ddyn?	<b>Balchder</b>

## ATEBION - Rownd Cwestiynau MENYWOD CYMRU

1	Beth oedd enw tywysoges y Deheubarth arweiniodd fyddin yn erbyn y Normaniaid yng Nghydweli yn 1136?	<b>Gwenllian</b>
2	Pwy wnaeth gystadlu ym Mhencampwriaeth Athletau'r Byd yn Athen yn 1997 ac sy'n cyflwyno ar y teledu?	<b>Angharad Mair</b>
3	Pa flwyddyn wnaeth Jemima Niclas arwain byddin yn erbyn y Ffrancwyr yn Abergwaun?	<b>1797</b>
4	Beth oedd enw merch brenin Lloegr a briododd Llywelyn Fawr?	<b>Siwan</b>
5	Pwy yw'r actores o Waun Cae Gurwen briododd Peter O'Toole yn 1959?	<b>Siân Phillips</b>
6	Beth yw enw Comisiynydd Plant Cymru? <b>Mae Sally Holland wedi dysgu Cymraeg. Dame Sally Davies yw Prif Swyddog Meddygol Lloegr ac y mae yna actores o'r enw Sally Phillips. (yn Bridget Jones?).</b>	<b>Sally Holland</b>
7	Pwy ddaeth yn aelod ifancaf erioed Senedd Ewrop yn 1994 ac sy'n aelod Llafur yn Y Cynulliad?	<b>Eluned Morgan</b>
8	Pwy oedd y ferch a ddisgrifiodd Tony Conran fel 'Y mwyaf o feirdd Cymru oedd yn ferched'?	<b>Ann Griffiths</b>
9	Pwy oedd brenhines llwyth yr Iceni a arweiniodd wrthryfel yn erbyn y Rhufeiniad?	<b>Buddug</b>
10	Pa un o'r menywod yma oedd <u>ddim</u> yn gariad i Dafydd ap Gwilym?	<b>Rhiannon</b>

## ATEBION - Rownd Cwestiynau IEITHOEDD Y BYD

1	Beth yw prif iaith Awstria?	<b>Almaeneg</b>
2	O ba iaith mae Affricaneg (Afrikaans) yn dod?	<b>Iseldireg</b>
3	Beth yw iaith swyddogol Pacistan?	<b>Wrdw</b>
4	Pa iaith sy'n cael ei siarad yng ngogledd Sbaen a de Ffrainc?	<b>Basgeg</b>
5	Ble mae'r iaith Sinhala yn cael ei siarad?	<b>Sri Lanca</b>
6	Faint o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfrifiad 2011?	<b>562,000</b>
7	Faint o ieithoedd sydd yn y byd?	<b>Mwy na 6,000</b>
8	Pa iaith sy'n cael ei siarad fwyaf yn y byd?	<b>Mandarin</b>
9	Beth yw ystyr 'Pravda', sef enw'r papur newydd Rwsieg?	<b>Y Gwirionedd</b>
10	Pa un o'r ieithoedd yma sy fwy tebyg i'r Gymraeg?	<b>Llydaweg</b>

## ATEBION - Rownd Cwestiynau CANU POP

1	Beth yw enw canwr y grŵp Edward H Dafis?	<b>Cleif Harpwood</b>
2	Pa dref mae'r grŵp JESS yn dod?	<b>Aberteifi</b>
3	'Le Kof' yw albym mwya diweddar Gwenno. Pa iaith mae hi'n canu?	<b>Cernyweg</b>
4	Beth yw enw'r cylchgrawn pop i bobl ifanc?	<b>Y Selar</b>
5	Linda, Roy a Jac oedd aelodau pa grŵp o Faldwyn?	<b>Plethyn</b>
6	Pwy oedd gitarydd oedd yn enwog am chwarae 'Mae Hen Wlad Fy Nhadau' ar y gitâr?	<b>Tich Gwilym</b>
7	Pa un o rhain sydd wedi canu deuwad gyda Tom Jones?	<b>Cerys Matthews</b>
8	Pa gân ddaeth yn rhif 1 i Mary Hopkin yn 1968?	<b>Those were the days</b>
9	Beth oedd enw un o grwpiau Gruff Rhys cyn y Super Furry Animals?	<b>Ffa Coffi Pawb</b>
10	'Maes B' yw enw gigs nos yn yr Eisteddfod Genedlaethol - ond beth oedd yr enw ar y gigs yn y 1970au hwyr / 1980au cynnar?	<b>Twrrw Tanllyd</b>

# ATEBION - Rownd Cwestiynau PROTESTIO

<b>1</b>	Gwnaeth Gwynfor Evans fygwth ymprydio yn 1980 er mwyn cael un o'r rhain?	<b>S4C</b>
<b>2</b>	Pryd oedd y brotest yn Sgwâr Tiananmen?	<b>1989</b>
<b>3</b>	Beth oedd enw'r wraig ddechreuodd y protestiadau ar y bysiau yn America dros hawliau'r bobl duon?	<b>Rosa Parks</b>
<b>4</b>	Pa ganwr wnaeth y gân 'Fe orchfygwn ni' (We shall overcome) yn boblogaidd?	<b>Pete Seeger</b>
<b>5</b>	Am sawl blwyddyn oedd Mandela yn y carchar?	<b>27</b>
<b>6</b>	Pa flwyddyn cafodd menywod bleidlais yr un fath â dynion?	<b>1928</b>
<b>7</b>	Pryd losgwyd yr Ysgol Fomio ym Mhen Llŷn?	<b>1936</b>
<b>8</b>	Ble ymosododd Merched Beca ar y Wyrchwys?	<b>Caerfyrddin</b>
<b>9</b>	Ble oedd y gwesty lle lladdwyd 22 o Siartwyr yn 1839?	<b>Casnewydd</b>
<b>10</b>	Pa flwyddyn oedd protest Cymdeithas yr Iaith ym Mhont Trefechan?	<b>1963</b>